Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony
**Stryd Fawr**
**Saltney**
**Sir y Fflint**
**CH4 8SG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/05/2013**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir yw Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony, yn Saltney, ryw hanner milltir o ffin Cymru â Lloegr, ar gyrion Caer. Mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir y Fflint. Mae'r ysgol yn gwasanaethu plwyf St Anthony yn Esgobaeth Wrecsam, er bod plant yn cael eu derbyn o blwyfi eraill ac o deuluoedd nad ydynt yn Gatholigion. Mae'r rhai sy'n dod i mewn i'r ysgol bob blwyddyn yn cynnwys yr ystod gallu llawn.

Yn gyffredinol, nid yw'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Daw bron i draean o ddisgyblion o du hwnt i'r ffin yn Lloegr, gan gynnwys llawer o ardal sydd â lefel uchel o amddifadedd cymdeithasol ac anfantais economaidd.

Roedd 165 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys 15 o ddisgyblion sy'n mynychu'r feithrinfa yn rhan-amser. Daw bron yr holl ddisgyblion o gartrefi Saesneg. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn famiaith. Daw ychydig o ddisgyblion o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Mae ychydig ohonynt yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae gan 20% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hyn yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan 11% o ddisgyblion, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Penodwyd y pennaeth ym Medi 1995. Yn ychwanegol at y pennaeth, mae pump o athrawon amser llawn a thri athro rhan-amser.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £2,973 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir y Fflint yw £13,748 a'r lleiafswm yw £2,758. Mae Ysgol Gynradd Gatholig St Anthony yn y 57fed safle o'r 73 o ysgolion cynradd yn Sir y Fflint o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu hamser yn yr ysgol;
- mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais ac mae ganddynt agwedd dda at ddysgu;
- mae profiadau dysgu creadigol ac ysgogol o ansawdd uchel, a staff addysgu a staff cymorth o ansawdd da, yn cefnogi'r dysgu'n effeithiol;
- mae darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu hapus a gofalgar; ac
- mae ystod o bartneriaethau yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddeilliannau disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae gweledigaeth glir gan y pennaeth ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio'n glir ar les disgyblion ac ar wella safonau;
- mae pob aelod o'r staff yn deall yn glir beth yw eu rolau, yn cefnogi ei gilydd ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm;
- mae gwybodaeth dda gan yr ysgol am ei chryfderau a'i gwendidau; ac
- mae pob aelod o staff yn cyfranogi'n effeithiol mewn gweithgareddau gwella'r ysgol sy'n gwella deilliannau disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella datblygiad iaith Gymraeg y disgyblion ymhellach

A2 Gwella llawysgrifen disgyblion a chyflwyniad eu gwaith

A3 Ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen ac addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ar draws yr ysgol

A4 Sicrhau bod cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys nifer o flaenoriaethau ymarferol i alluogi llywodraethwyr i fonitro cynnydd a safonau'n effeithiol

### Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau sydd yn is na'r hyn a ddisgwylir fel arfer ar gyfer disgyblion o oed tebyg. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol, a disgyblion â gallu uwch, yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cofio dysgu blaenorol yn dda ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu. Mae bron yr holl ddisgyblion yn gweithio'n dda gyda'i gilydd mewn parau neu mewn grwpiau. Maent yn gwrando'n dda ac yn parchu barnau eu cyfoedion. Mae llawer ohonynt yn gofyn cwestiynau'n hyderus ac yn ymateb yn barod i gwestiynau a ofynnir gan eu hathrawon ac oedolion eraill. Mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hyderus mewn ystod eang o sefyllfaoedd.

Mae safonau darllen yn dda. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen wybodaeth dda am seiniau llythrennau a defnyddiant amrywiaeth o strategaethau i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn dda. Maent yn darllen gyda mwynhad a gyda mwyfwy o rugl der, cywirdeb a dealltwriaeth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn hyderus. Mae llawer yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant da. Maent yn darllen am gyfnodau amser hwy. Siaradant yn eiddgar am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gymeriadau a thrywyddau storïau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn gallu sgimio darn yn gynyddol i gael ei ystyr ac i gasglu gwybodaeth. Mae llawer ohonynt yn cymhwyso'u medrau darllen yn dda mewn pynciau gwahanol, a gallant ddod o hyd i gyfeirlyfrau a'u defnyddio'n effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau ysgrifennu cynnar, ac erbyn diwedd Blwyddyn 2 mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n llwyddiannus at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd mewn brawddegau llawn gydag atalnodi cywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n dda yn annibynnol gan ddefnyddio amrywiaeth o eirfa ddiddorol. Maent yn ysgrifennu'n hyderus ac yn gywir mewn amrywiaeth o ffurfiau, ac mae eu hysgrifennu'n ystyriol ac yn llawn dychymyg yn aml. Mae llawer o ddisgyblion yn atgyfnerthu ac yn ymestyn eu medrau ysgrifennu yn dda i gynhyrchu darnau ysgrifenedig estynedig o ansawdd da ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae medrau cyflwyno a llawysgrifen yn anghyson, ac yn aml nid ydynt yn adlewyrchu ansawdd da y cynnwys.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn aml yn unol â'u gallu. Mae ystod eang o raglenni cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn effeithiol o ran gwella'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion targedig.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu medrau yn yr iaith Gymraeg. Maent yn cyflawni'n dda yn eu gwersi strwythuredig, ac yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i gyfarchion a chyfarwyddiadau cyffredinol mewn gwersi eraill. Cyfyngedig yw eu gallu i ddefnyddio Cymraeg y tu allan i'r gwersi hyn.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion Cyfnod Sylfaen yn cyflawni'r deilliannau disgwyliedig (deilliant 5) neu'r deilliant uwch (deilliant 6) yn is na chyfartaledd Cymru ac ychydig yn is na chyfartaledd y teulu. O gymharu â pherfformiad ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn y 50% isaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) neu uwch mewn Saesneg yn dangos tuedd o wella. Yn y ddwy flynedd diwethaf, roedd perfformiad uwchlaw cyfartaledd Cymru ac ymhlith yr uchaf yn y teulu. Yn sgil perfformiad yr ysgol mewn Saesneg yn 2012, roedd ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn amrywio. Mae wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu ac yn y 50% uchaf o ran lefelau perfformiad ar gyfer ysgolion tebyg mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf.

Fe wnaeth canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel uwch (lefel 5), ym mhob un o'r tri phwnc yng nghyfnod allweddol 2, roi'r ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg. Mae canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel uwch mewn Saesneg wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn Saesneg wedi rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol. Yn gyffredinol, mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi rhoi'r ysgol yn y 50% isaf yn ystod y cyfnod hwn.

Nid oes patrwm cyson ym mherfformiad cymharol bechgyn a merched dros y pedair blynedd diwethaf, er bod bechgyn yn gyffredinol yn gwneud yn well na merched mewn mathemateg. Mewn Saesneg, er nad oes gwahaniaeth sylweddol ar y lefel ddisgwyliedig, mae merched yn gyffredinol yn perfformio'n well na bechgyn ar y lefel uwch.

Nid oes patrwm cyson ychwaith ym mherfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â pherfformiad disgyblion nad oes hawl ganddynt i gael prydau ysgol am ddim.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac mae ganddynt agweddau da at ddysgu. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn hyderus bod y staff yn delio'n brydlon ag unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau o fwlio. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r angen i fwyta'n iach a gwneud ymarfer corff rheolaidd.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n dda yn annibynnol a dan gyfarwyddyd oedolion. Mae chwarae mwy o ran yn yr asesu, cytuno meini prawf llwyddo a gosod targedau personol yn helpu'r disgyblion i gael dealltwriaeth o'u cryfderau a'u gwendidau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cydweithio'n dda â'i gilydd, ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oed yn chwarae yn hapus â'i gilydd amser egwyl ac amser cinio. Maent yn gwrtais ac yn foesgar, ac yn dangos parch at ei gilydd. Cyfranna hyn yn llwyddiannus at ethos gofalgar cyffredinol yr ysgol.

Mae ffigurau presenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf yn gyson uwchlaw'r ffigurau ar gyfer ysgolion tebyg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae cyngor yr ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd yr ysgol. Caiff yr aelodau eu cynnwys wrth nodi meysydd i'w gwella ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Hefyd, maent yn dewis elusennau i'w cefnogi ac yna'n helpu codi'r arian sydd ei angen.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda at weithgareddau yn y gymuned. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu datblygiad fel unigolion cyflawn a chyfrifol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae athrawon yn darparu amrywiaeth dda o brofiadau diddorol a pherthnasol i'r disgyblion sy'n cwmpasu'r Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol a gofynion addysg grefyddol. Maent yn darparu amrywiaeth dda o brofiadau dysgu creadigol ac ysgogol o ansawdd uchel yn y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth awyr agored ar gyfer disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn gwbl effeithiol. Mae'r profiadau dysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n llwyddiannus ar fedrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion. Mae ystod helaeth o glybiau allgyrsiol yn cyfoethogi ac yn ymestyn dysgu'r disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio'n systematig ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion. Yn benodol, mae cynlluniau athrawon yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd yn cael eu cynnig i ddisgyblion ddefnyddio ac ymestyn eu medrau darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn adolygu eu cynlluniau'n rheolaidd ac yn sicrhau eu bod yn adeiladu'n gynyddol ar ddysgu blaenorol disgyblion.

Cynigir darpariaeth dda ar gyfer y dimensiwn Cymreig, i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Mae darpariaeth briodol ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw'n llwyddo i hyrwyddo defnydd annibynnol disgyblion o'r iaith.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am bwysigrwydd ailgylchu. Megis dechrau cael ei datblygu y mae addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, fodd bynnag.

**Addysgu: Da**

Ar draws yr ysgol gyfan, mae staff ac oedolion eraill wedi datblygu perthynas weithio gadarnhaol gyda disgyblion sy'n meithrin dysgu yn effeithiol. Dangosa athrawon wybodaeth bynciol dda. Mae oedolion ychwanegol yn cyfrannu'n llwyddiannus i gynorthwyo disgyblion llai galluog.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae cyflwyniadau'r athrawon yn frwdfrydig ac yn dal diddordeb bron pob un o'r disgyblion yn llawn. Maent yn rhannu amcanion dysgu a meini prawf llwyddo clir yn effeithiol. Defnyddiant ystod o ddulliau addysgu yn llwyddiannus, ac mae hynny'n sicrhau bod disgyblion yn cael eu cymell ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Yn yr ychydig iawn o sesiynau lle mae'r addysgu yn rhagorol, mae dulliau addysgu cyffrous a her ac adborth effeithiol iawn yn ymestyn dysgu'r holl ddisgyblion yn dda iawn. Yn yr ychydig iawn o wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae diffyg cyflymder yn y dysgu ac nid yw tasgau bob amser yn herio disgyblion o bob gallu yn ddigon da.

Mae dulliau asesu priodol gan yr ysgol sy'n rhoi tystiolaeth glir i'r staff o'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae athrawon yn rhoi adborth llafar da i ddisgyblion yn ystod gwersi. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn drylwyr, ac mae sylwadau'r athrawon yn gefnogol ac adeiladol. Caiff disgyblion eu cynnwys yn rheolaidd wrth asesu eu gwaith eu hunain a nodi targedau ar gyfer gwella.

Mae cofnodion o gynnydd disgyblion yn glir, ac mae athrawon yn eu defnyddio'n dda i nodi'r angen am gymorth ychwanegol. Mae athrawon wedi gweithio'n llwyddiannus gyda staff o ysgolion lleol eraill i gryfhau eu dealltwriaeth o lefelau cyrhaeddiad.

Rhoddir adroddiadau o ansawdd da i rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lefel uchel o ofal a'r berthynas dda rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n dda at les disgyblion. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da, ac mae hynny'n cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos cadarnhaol iawn sydd i'w weld yn amlwg yn yr ysgol.

Mae profiadau dysgu'n hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer cefnogi iechyd a lles y disgyblion ac ar gyfer sicrhau eu bod yn mwynhau cyfleoedd rheolaidd i gyfranogi mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol. Mae'r clwb brecwast yn darparu amgylchedd gofalgar, ac yn cynnig cychwyn iach i'r diwrnod i'r disgyblion sy'n mynychu. Gwna'r ysgol ddefnydd da o wasanaethau arbenigol, pan fydd eu hangen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae athrawon yn nodi anghenion ychwanegol disgyblion yn gynnar, ac yn rhoi cymorth sydd wedi'i dargedu a'i gynllunio'n dda. Caiff cynlluniau addysg unigol eu hadolygu a'u diweddaru yn effeithiol a rheolaidd gan staff mewn ymgynghoriad â rhieni, y disgybl, a'r asiantaethau arbenigol priodol. Mae systemau clir ar waith i fonitro cynnydd y disgyblion hyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu hapus a gofalgar sy'n hyrwyddo ei nodau a'i gwerthoedd yn llwyddiannus. Mae ethos Cristnogol cadarnhaol yr ysgol yn sail i'w hymrwymiad i hyrwyddo cyfle cyfartal a thegwch a pharch i bawb. Aiff yr ysgol ati'n

gyson i annog disgyblion i ddangos parch a gofal at ei gilydd. Mae pob disgybl yn cael mynediad cyfartal i'r cwricwlwm ac amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r ysgol yn cydnabod ac yn dathlu cyflawniadau a chefndiroedd amrywiol y disgyblion yn dda trwy ddigwyddiadau ysgol, gwasanaethau a gweithgareddau dosbarth.

Mae'r adeilad yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr ac mae'n cynnig amgylchedd dysgu ysgogol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda i gefnogi'r addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Ceir offer da yn yr ystafelloedd dosbarth, gydag adnoddau o ansawdd da sy'n cyfateb yn briodol i anghenion y disgyblion. Mae'r arddangosfeydd ar furiau yn creu amgylchedd dysgu diddorol i ddisgyblion. Ni all pobl anabl fynd i bob rhan o'r adeilad. Mae digonedd o le ar y safle, mae'n cael ei gynnal a'i gadw yn dda ac mae'n ddiogel. Er bod disgyblion iau y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau amgylchedd ysgogol yn yr awyr agored, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen wedi'i datblygu'n ddigon da.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth glir a disgwyliadau uchel gan y pennaeth. Mae'n rhannu'r rhain yn llwyddiannus gyda staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr. Mae'n darparu arweinyddiaeth glir a phwrpasol i'r ysgol ac yn rheoli ei gwaith yn effeithiol, yn unol â'r weledigaeth. Caiff ei chefnogi'n dda gan yr uwch athrawon a phob aelod staff. Gweithiant yn effeithiol â'i gilydd fel tîm.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd, sy'n canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella, yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u rolau wrth gyflawni blaenoriaethau'r ysgol. Mae pob athro yn cydlynu un neu fwy o feysydd neu bynciau. Maent yn cyflawni'r rolau hyn yn gydwybodol ac yn effeithiol. Mae'r trefniadau rheoli perfformiad blynyddol ar gyfer athrawon ac adolygiadau swyddi ar gyfer cynorthwywyr addysgu yn effeithiol.

Mae llywodraethwyr yn cefnogi arweinwyr yr ysgol yn dda. Mae gan bob llywodraethwr gysylltiad â sawl agwedd ar waith yr ysgol. Mae hyn yn eu helpu i gael gwybodaeth dda am sut mae'r ysgol yn gweithredu o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid yw llywodraethwyr yn cael eu cynnwys yn ddigonol wrth ddal arweinwyr i gyfrif am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i fentrau lleol a chenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac o ran sicrhau lles disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r rheolwyr yn arfarnu'n gywir bob agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae'r strategaethau hunanarfarnu yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r ysgol yn gofyn am farnau disgyblion a rhieni yn

rheolaidd.  Caiff data perfformiad ei ddefnyddio'n effeithiol i fonitro a chynllunio ar gyfer gwella safonau.  Mae hyn, ynghyd â chyngor gan yr awdurdod lleol, yn rhoi gwybodaeth drylwyr i arweinwyr am eu hysgol.

Caiff athrawon eu cynnwys yn llawn wrth fonitro gwaith yn y meysydd y maent yn eu cydlynu.  Maent yn monitro gwaith ym mhob dosbarth drwy arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a siarad â disgyblion.  Mae eu cynlluniau datblygu yn hyrwyddo hinsawdd o welliant parhaus ar draws pob agwedd ar waith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth o'r hunanarfarniad yn dda i nodi blaenoriaethau sy'n canolbwyntio'n glir ar wella deilliannau disgyblion.  Mae trafodaethau am strategaethau gwella yn brif eitemau ar agenda pob cyfarfod staff wythnosol bron.  Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael ei gynnwys yn effeithiol i wella'r ysgol.  Fodd bynnag, mae cynllun datblygu'r ysgol yn rhy gymhleth ac mae gormod o flaenoriaethau i alluogi'r llywodraethwyr i fonitro'u cynnydd yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu.  Mae diwylliant o gydweithio a rhannu arfer dda yn datblygu'n dda, yn yr ysgol a thu hwnt.  Un enghraifft dda yw ymrwymiad yr ysgol i weithio gydag ysgolion eraill i wella'r ddarpariaeth mewn addysg gorfforol a chwaraeon.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Gweithia'r ysgol yn effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys yr eglwys, y gymuned leol a'r awdurdod lleol.  Mae'r partneriaethau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at wella deilliannau ar gyfer disgyblion.  Gweithia'r ysgol yn dda â rhieni.  Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad y disgyblion.  Mae'r tîm arweinyddiaeth a'r staff yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni, ac maent yn gefnogol o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi'r pontio o gylchoedd chwarae lleol i'r Cyfnod Sylfaen.  Mae'r rhain yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn Cyfnod Sylfaen.  Mae'r trefniadau pontio o gyfnod allweddol 2 i ysgolion uwchradd lleol yn effeithiol hefyd ac yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.  Gweithia'r ysgol yn dda gydag ystod o asiantaethau allanol i ddiwallu anghenion penodol unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae partneriaethau da o fewn y clwstwr lleol o ysgolion cynradd lle maent yn rhannu arbenigedd mewn llythrennedd ac addysg gorfforol.  Yn sgil safoni gwaith disgyblion yn y pynciau craidd, mae portffolios defnyddiol o waith disgyblion wedi'u coladu.  Mae'r rhain yn effeithiol o ran gwella dealltwriaeth athrawon o arferion  asesu a'r safonau a ddisgwylir ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn dda.  Mae athrawon yn dra chymwys ac mae ganddynt amrywiaeth o arbenigedd ar draws y cwricwlwm.  Maent yn mynychu ystod dda o weithgareddau datblygiad proffesiynol i ehangu'u harbenigedd.  Ceir trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.  Mae'r tîm cryf a reolir yn

dda o gynorthwywyr addysg hyfforddedig sy'n gweithio'n effeithiol mewn dosbarthiadau neu gyda disgyblion unigol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddeilliannau'r disgyblion.

Caiff pob rhan o'r ardaloedd mewnol sydd ar gael ei defnyddio'n dda. Gwna'r athrawon a disgyblion ddefnydd effeithiol o adnoddau dysgu o ansawdd da. Gall disgyblion ddefnyddio offer TGCh yn rheolaidd.

Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod meysydd blaenoriaeth i'w datblygu yn cael y cyllid sydd ei angen arnynt. Maent yn dosrannu'r gyllideb staffio yn dda. Mae gan yr ysgol warged sylweddol yn y gyllideb. Fodd bynnag, mae'r llywodraethwyr wedi cytuno cynlluniau gwario priodol i leihau'r gwarged.

O ystyried y safonau da a gyflawnir gan y rhan fwyaf o ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig St Anthony yw'r ysgol sy'n wynebu'r her fwyaf yn ei theulu o ysgolion.

Nid yw disgyblion sy'n dod i'r ysgol o ardaloedd o amddifadedd sylweddol ar draws y ffin yn Lloegr wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad a ddefnyddiwyd ar gyfer dyrannu ysgolion o fewn eu teulu o ysgolion.

Mae'r asesiad gwaelodlin o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn dangos bod mwyafrif y disgyblion yn dod i mewn i'r ysgol â medrau sydd islaw hynny a ddisgwylir fel arfer ar gyfer disgyblion o oed tebyg.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion yn cyflawni dangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen (disgyblion yn cyflawni'r deilliannau disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, mewn datblygiad mathemategol ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol mewn cyfuniad) yn is na chyfartaledd Cymru ac ychydig yn is na chyfartaledd y teulu.

O gymharu â lefelau perfformiad ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol, ar y deilliant disgwyliedig (Deilliant 5) neu uwch, yn y 50% isaf ar gyfer dangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen.

Roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'r deilliant uwch (deilliant 6) yn is na chyfartaledd Cymru hefyd, ac ychydig yn is na chyfartaledd y teulu.

O gymharu â pherfformiad ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol, ar y deilliant uwch (Deilliant 6) neu uwch, yn y 50% isaf hefyd.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012, fe wnaeth bechgyn berfformio'n well na merched mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad mathemategol. Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol yng nghyflawniadau bechgyn a merched mewn medrau personol a chymdeithasol.

Yn 2012, yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) neu uwch mewn Saesneg, yn uwch na chyfartaledd Cymru ac ymhlith yr uchaf yn y teulu. Roedd perfformiad disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn is na chyfartaledd y teulu. Mae canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

Yn sgil perfformiad yr ysgol yn 2012 mewn Saesneg, roedd ymhlith y 50% uchaf o ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Roedd yn y 50% isaf o ran perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae

canran y disgyblion yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi rhoi'r ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel uwch (lefel 5) mewn Saesneg uwchlaw cyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru. Mewn mathemateg, roedd perfformiad yn uwch na chyfartaledd y teulu ond yn is na chyfartaledd Cymru. Roedd perfformiad yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru mewn gwyddoniaeth.

Ac eithrio yn 2010-2011, mae canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel uwch yn Saesneg wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru. Fe wnaeth perfformiad yr ysgol ar y lefel hon yn 2012 ym mhob un o'r tri phwnc ei gosod yn y 50% uchaf o ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn Saesneg wedi rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd flaenorol, ond yn gyffredinol mae wedi bod yn y 50% isaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Nid oes unrhyw batrwm cyson ym mherfformiad cymharol bechgyn a merched dros y pedair blynedd diwethaf, er bod bechgyn yn gyffredinol yn gwneud yn well na merched mewn mathemateg. Mewn Saesneg, er nad oes unrhyw wahaniaeth sylweddol ar y lefel ddisgwyliedig, fe wnaeth merched berfformio'n well yn gyffredinol na bechgyn ar y lefel uwch.

Nid oes unrhyw batrwm cyson ychwaith ym mherfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â pherfformiad disgyblion sydd heb yr hawl i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 2.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Fe wnaeth 21 o rieni neu ofalwyr lenwi'r holiadur.  Mae lefelau boddhad cyffredinol yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd eraill yng Nghymru.

Dywed pob rhiant neu ofalwr bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol ac maent i gyd yn hyderus bod eu plant yn ddiogel yno.  Cytuna pawb fod eu plentyn wedi cael cymorth i ymgartrefu wrth gychwyn yn yr ysgol.  Dywed pawb a ymatebodd fod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.  Cytuna bron pawb fod yr ysgol yn annog eu plentyn i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.  Cred bron pob rhiant fod eu plentyn yn gwneud cynnydd da.  Fodd bynnag, nid yw ychydig o rieni'n teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn.  Mae pob rhiant o'r farn fod ymddygiad yn dda.

Cred pob rhiant neu ofalwr bod yr addysgu yn dda a bod yr athrawon yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau/gorau.  Mae pob un ohonynt o'r farn fod yr athrawon yn helpu eu plentyn i aeddfedu a chymryd mwy o gyfrifoldeb, a dywed bron pawb a ymatebodd fod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud i'r ysgol uwchradd.  Cred pawb a ymatebodd fod eu plentyn yn cael digon o gymorth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.  Cytuna llawer o rieni fod y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.  Mae bron pawb o'r farn fod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau.  Cred pob rhiant fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda, ac mae bron pawb a ymatebodd yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwyn.  Teimla bron pawb yn esmwyth ynglŷn â mynd at yr ysgol â chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Fe wnaeth 75 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 lenwi'r holiadur.  Roedd yr ymatebion i fwyafrif y cwestiynau uwchlaw'r cyfartaleddau ar gyfer ysgolion cynradd eraill yng Nghymru.

Dywed pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a chred y rhan fwyaf fod yr ysgolion delio'n dda â bwlio.  Mae pob un ohonynt yn cytuno eu bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn pryderu neu'n poeni.  Dywed pob un o'r disgyblion fod yr ysgol yn eu helpu i fod yn iach, ac mae bron pawb yn cytuno bod yr ysgol yn darparu digon o gyfleoedd iddynt fod yn weithgar yn gorfforol.

Dywed pob un o'r disgyblion fod yr athrawon a'r staff cymorth yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, a theimla'r rhan fwyaf ohonynt eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.  Mae bron pawb yn dweud eu bod yn gwybod beth i wneud a phwy i ofyn iddynt os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd.  Mae bron yr holl ddisgyblion o'r farn fod gwaith cartref yn eu helpu i wella ar eu gwaith yn yr ysgol.  Cred llawer ohonynt fod digon o adnoddau ar gael i'w galluogi i ddysgu'n effeithiol.  Mae llawer o'r farn fod plant yn ymddwyn yn dda yn ystod amser cinio ac egwyl, ond nid yw lleiafrif yn cytuno bob pob plentyn yn ymddwyn yn dda mewn gwersi.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Garth Higginbotham | Arolygydd Tîm |
| Justine Barlow | Arolygydd Lleyg |
| Meinir Howells | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Oliver | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.